**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED LLANDDOGED, LLANDDOGED, NOS LUN, 17 Chwefror, 2025**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Eifion Williams(EW),
Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng Rhys Griffiths(RG),
Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia OwenNO) Cyng Aaron Wynne(AW) (Cynghorwyr Sir)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Alun Morris(AM),

2. **CADARNHAU'R COFNODION 27ain IONAWR, 2025**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ALJ) ac eilwyd gan ( JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 **PLAC HANES Y CAWR CADAIR IFAN GOCH**

Y clerc wedi cysylltu gyda Geraint o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y diweddariad ynglŷn â'r plac. Geraint wedi cadarnhau y bydd y plac yn barod i'w osod yn fuan.

3.2 **FFORDD TRAMWY PENCRAIG ARTHUR, FFORDD TRWYN SWCH, LLANDDOGED**

Cafwyd diweddariad gan (AW) a (NO) ar ol eu hymweliad gyda Mr a Mrs Raven yn Pencraig Arthur, Llanddoged. Maent wedi cysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir ac yn aros i glywed os oes unrhyw beth a ellir ei wneud i helpu Mr a Mrs Raven gyda'r beiciau modur sydd yn teithio ar hyd y ffordd tramwy ger eu heiddo.
Mi fydd (AW) a (NO) yn diweddaru'r Cyngor Cymuned unwaith y bydd ganddynt fwy o wybodaeth

3.3**. FFYNNON LLANDDOGED, FFORDD EFAIL UCHAF, LLANDDOGED**

Y clerc am gysylltu gyda Trefor Roberts, Wern, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged i holi pwy sydd yn gyfrifol am y ffynnon.

4. **CYNLLUNIO**

4.1 Cais rhif 52301 -Gorchudd to newydd ar gyfer storfa dail buarth fferm (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw ) Pantllin Mawr Ffordd Tyrpeg Uchaf Llanddoged Llanrwst LL26 0BZ

4.2 Cais Rhif 0/52323 -Adeiladu llwybr porthiant gyda gorchudd Bryn Morfydd Mawr Ffordd Efail Uchaf LlanddogedLlanrwst LL26 0UU.

Trafodwyd y ddwy gais cynllunio uchod a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

**5. CYNNAL A CHADW**

5.1 Twll yn y ffordd Allt Goch Llanddoged rhwng Fferm Pen y Bryn a Groesffordd..
5.2 Pryder am gyflwr ffordd Bryn Saith, Llanddoged ambell i dyllau ar hyd y ffordd.
5.3 Twll ar allt Penbryngaled, Llanddoged.
5.4 Pryder fod gormod o halen yn cael ei roi ar ffordd Llanddoged – y clerc i holi Mr Emyr Jones, Adran Priffyrdd i edrych ar y sefyllfa.
5.5 Neges gan perchnogion Maes yr Awel, Ffordd Trwyn Swch Llanddoged fod Polyn ffens haearn wedi ei orchuddio ac eiddew wedi dod i lawr yn Cae Chwarae Cae Cetyn.

6. **UNRHYW FATER ARALL**

6.1 **MATERION FFYRDD**

(NO) a (AW) angen gwybodaeth gan y aelodau'r cyngor ar benderfyniad o ran blaenoriaethu pa ffordd sydd angen sylw o ran cynnal a chadw/tarmacio eleni.
Mae 4 ffordd ar y rhestr :-

- Yr allt i fyny o Troed y Rhiw, Maenan
- Ffordd i lawr o Ffrith Uchaf, Maenan
- Ffordd Fron Francis, Llanddoged
- Ffordd Llanddoged o Plas Ednyfed hyd at Cae Brychiad

Trafodwyd y ffyrdd ar y rhestr a daeth aelodau'r cyngor i benderfyniad drwy godi eu dwylo i gadarnhau mae Ffordd Fron Francis sydd angen sylw.  Bydd (NO) a (AW) yn cyfeirio y ffordd yma at yr Adran Priffyrdd.